Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Alison Bulman
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
LD1 5LG

29 Hydref 2020

Annwyl Alison Bulman,

Par: Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harolygiad gwerthuso perfformiad rhwng 14 Medi a 18 Medi 2020. Prif pwrpas yr arolygiad hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant. Gwnaethom ystyried diogelwch gwasanaethau, diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau a diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Trosolwg
Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd sylweddol ers ein harolygiadau diwethaf ym mis Hydref 2018 (Gwasanaethau Plant) a mis Ionawr 2018 (Gofal Cymdeithasol i Oedolion). Gwelsom gryfderau ym maes arwain a rheoli, gweithio mewn partneriaeth a gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar mewn Gwasanaethau Plant.

Pobl – llais a rheolaeth
Gall pobl ym Mhowys fod yn siŵr bod yr awdurdod lleol yn ymrwymedig i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed a'u bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae angen gwneud gwaith i gefnogi gwelliant parhaus a rhoi arferion da ar waith ym mhob maes gwasanaeth.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Cyffordd Llandudno
Swyddfeydd y Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

0300 790 0126
0872 437 7301
ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Llandudno Junction Office
Government Offices
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atal
Mae swyddogion yr awdurdod lleol ac aelodau'r cyngor yn cyfathrebu'n well. Mae llinellau atebolrwydd a phenderfyniad o'r newydd i ddysgu wedi helpu i sicrhau bod cydbarodrwydd corfforaethol i ganolbwyntio ar atal fel ffordd o sicrhau bod cymunedau a gwasanaethau yn gynaliadwy at y dyfodol.

Llesiant
Mae uwch-reolwyr ac aelodau arweiniol wedi cyflwyno diwylliant newydd o ddisgwyliadau a safonau ym maes gofal cymdeithasol ym Mhowys. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r heriau y mae hyn yn eu peri ac mae'n gweithio'n galed gyda phob rhanddeiliad i gefnogi diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau, a diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio.

Partneriaethau ac Integreiddio
Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu a myfyrio ar bwysigrwydd arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol wrth sicrhau ei fod yn llwyddo i gyflawni ei gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol.

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, wrth hefyd gydbwyso'r argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Mae'r gwaith sylweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn i adolygu a chreu un pwynt cyswllt newydd ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant wedi arwain at rai gwelliannau amlwg. Mae'r tîm cymorth gwybodaeth gwasanaethau oedolion (ASSIST) bellach yn gweithredu'n fwy effeithlon, gyda chanllawiau ysgrifenedig clir i gefnogi ei waith. Yn y gwasanaethau plant ac oedolion, gwelsom enghreifftiau lle cafodd pobl gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol i'w galluogi i wneud penderfyniadau a dewisiadau ar sail gwybodaeth mewn ffordd amserol neu lle cawsant eu hatgyfeirio at dimau eraill i'w hasesu a'u cynorthwyo.

Mae oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth yn cael ymateb gwell gan y Tîm Diogelu. Roedd atgyfeiriadau â goblygiadau diogelu yn cael eu hanfon ymlaen yn briodol at y Tîm Diogelu a oedd yn ymdrin â nhw mewn modd priodol ac amserol. Mae diogelu yn ddyletswydd statudol allweddol y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol barhau i'w datblygu a'i chefnogi. Mae'n rhaid cynnal y trefniadau gwell o ran rhoi gwybod i fyrddau diogelu rhanbarthol am achosion.

Mae'r atebion i arolwg staff AGC yn awgrymu bod angen gwneud gwaith i sicrhau nad oes oedi gormodol o ran ymatebion y gwasanaeth nac wrth drosglwyddo gwaith rhwng timau oherwydd proses gymhleth. Mae'r rheolwyr yn parhau i fonitro faint o gysylltiadau yr ymatebir iddynt yn briodol ac yn nodi ble y mae angen gwelliannau (galw oherwydd methiant). Mae'n rhaid i'r rheolwyr sicrhau y parheir i gyflawni swyddogaethau pan fydd swyddi a lenwyd gan staff oedolion a gafodd eu secondio o dimau eraill yn yr awdurdod lleol er mwyn helpu yn ystod COVID-19 yn dychwelyd i'w dyletswyddau arferol. Gwnaethom nodi bod swydd rheolwr tîm oedolion yn parhau i fod yn wag mewn gwasanaeth sy'n

hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael cymorth ac atgyfeiriadau amserol at wasanaethau i gefnogi'r canlyniadau maent am eu cyflawni.

Mae asesiadau galluedd meddyliol ledled Powys yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd, o ragorol i wael. Mae'r gorau yn rhoi darlun clir o amgylchiadau unigol pobl a'u gallu i ddeall, cadw a defnyddio gwybodaeth allweddol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae diffyg eglurder o ran diben a manylion mewn eraill, ac maent yn cynnwys anghysondebau ac nid oeddent yn addas at y diben. Mae'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn adolygu arferion proffesiynol yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2015 i wella safonau a sicrhau y caiff lleisiau pobl eu clywed ar adegau pan fyddant fwyaf agored i niwed.

Mae amrywiaeth wrth gasglu a chofnodi barn pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt weithiau'n arwain at ddiffyg eglurder wrth ymateb. Mae angen i'r rheolwyr sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed a'u cofnodi. Ar adegau, gwelsom fod barn teuluoedd a gofalwyr yn cael eu blaenoriaethu dros lais defnyddiwr y gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r rheolwyr sicrhau bod y ddau yn cael cynnig asesiad eu hunain, naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn. Gwelsom fod asesiadau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Cawsom wybod hefyd fod sesiynau gwaith uniongyrchol yn cael eu cynnal gyda phobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae buddsoddiad yr awdurdod lleol yn natblygiad proffesiynol ei weithlu, yn enwedig wrth gyflwyno model ymarfer systemig mewn gwasanaethau plant, a rennir â phartneriaid, yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd ac yn sicrhau dealltwriaeth a rennir o ymarfer rhwng asiantaethau a theuluoedd.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel yn flaenoriaeth. Mae'r gwaith o ailstrwythuro gwasanaethau plant i gynnwys gwasanaethau cymorth cynnar, ymyrryd ac atal ynghyd â dull Arwyddion Diogelwch yn galluogi gweithwyr cymdeithasol a staff cymorth i gynnal ffocws yn seiliedig ar gryfder wrth ymgysylltu â phobl ifanc a theuluoedd.

Mae gan yr uwch-reolwyr lefel uchel o sgiliau a gwybodaeth broffesiynol, ynghyd â dealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth berthnasol, ymarfer proffesiynol gofal cymdeithasol a rheoli llif gwaith. Drwy ddatblygu cyfrifoldeb a rennir, goruchwyliaeth o ddarpariaeth y gwasanaeth a synnwyr clir o gyfeiriad, mae wedi creu amgylchedd lle y gall gwaith cymdeithasol ffynnu.

Mae'r system gwyno gyfredol yn gweithio'n ddigonol. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i feithrin amgylchedd o gyfrifoldeb cyfunol sy'n ceisio dysgu o gwynion a chanmoliaeth. Mae hyn yn gwella ei allu i ddysgu mewn amgylchedd dim bai.

Atal – **Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Mae nifer yr oedolion hŷn sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty wedi lleihau'n sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ledled Cymru mae hyn wedi cael ei gefnogi drwy greu capasiti ymchwydd mewn ymateb i COVID-19.

Nod cyfarfodydd llif gwaith cleifion iechyd a gofal cymdeithasol gweithredol yw sicrhau y gall pobl adael yr ysbyty cyn gynted ag y byddant yn iach i wneud hynny o safbwynt meddygol. Dylai'r rheolwyr ystyried a allai paratoi yn well gyda llai o bobl yn mynychu cyfarfodydd gyflawni'r un canlyniad gan ddefnyddio llai o adnoddau. Mae gwersi o gwynion diweddar wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu'n dda â theuluoedd wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion.

Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau therapi galwedigaethol, a oedd wedi lleihau'n ddiweddar, yn cynyddu unwaith eto wrth i'r cyfyngiadau symud lacio ac wrth i atgyfeiriadau newydd godi'n uwch na chyfraddau blaenorol. Dylai'r rheolwyr ddefnyddio data llif gwaith i sicrhau bod prosesau ar gyfer rheoli rhestrau aros yn effeithiol yn cyfyngu ar nifer y bobl sy'n colli gallu corfforol neu feddyliol wrth aros i wasanaethau ddechrau.

Mae rhai pobl hŷn ym Mhowys yn symud i mewn i gartrefi gofal am nad yw'r cymorth sydd ei angen arnynt ar gael yn y gymuned. Ar adegau, y cymorth sydd ei angen arnynt yw gofal cartref i helpu gydag ymolchi a gwisgo. Ar adegau eraill, mae pobl yn unig ac nid ydynt yn cael cymorth i gynnal eu llesiant emosiynol. Er bod yr uwch-reolwyr yn hyderus yn eu datblygiad o fentrau micro a gallu'r trydydd sector ym Mhowys i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth, nid yw'r ymarferwyr yn mynegi'r un lefel o hyder yn yr adnoddau sydd ar gael. Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod adnoddau a gwasanaethau yn cael eu datblygu mewn ardaloedd lle mae diffygion ac i leihau nifer y bobl sy'n gadael eu cartrefi eu hunain ac yn mynd i ofal preswyl am resymau y gellir eu hosgoi.

O fewn y sampl o ffeiliau achos a welsom, gwnaethom nodi amrywiaeth yn ansawdd gwaith uniongyrchol gydag oedolion, plant a theuluoedd. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o geisio defnyddio ymyrraeth ataliol a bod hyn yn llwyddiannus, a bod trefniadau camu i lawr priodol ar waith. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i ddatblygu systemau er mwyn deall a rhoi sicrwydd iddo'i hun o effaith ei ymyriadau cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd drwy roi gwersi a ddysgwyd o archwiliadau wedi'u targedu a gwaith sicrhau ansawdd ar waith. Gwelsom dystiolaeth lle roedd archwiliadau wedi nodi asesiadau gwell o angen, risg a gwaith sy'n ofynnol i bennu sut y cyflawnir canlyniadau cadarnhaol i'r bobl.

Mae'r defnydd o hyfforddiant cyfathrebu cydweithredol ar gyfer gofal cartref a staff ailalluogi wedi golygu bod canlyniadau cadarnhaol wedi cael eu cyflawni wrth i weithwyr fabwysiadu dull sy'n fwy seiliedig ar gryfderau. Mae gan lawer o'r ymarferwyr y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gweithio i ymgysylltu â theuluoedd ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny. Mae llawer o enghreifftiau cadarnhaol o weithwyr yn ymgysylltu â phobl am yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan geisio atebion er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu magu gan eu teuluoedd ac y gall pobl hŷn aros yn eu cartrefi eu hunain gyda chymorth.

Llesiant – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn cynnal eu diogelwch ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi ceisio hybu llesiant pobl sy'n agored i niwed drwy greu capasiti ychwanegol i gefnogi pobl gartref. Mae hyn wedi cael ei gyflawni drwy ddefnyddio staff o bob rhan o'r awdurdod lleol ac o ganolfannau gofal dydd sydd wedi cau dros dro oherwydd COVID-19. Mae tîm pontio newydd wedi cael ei ddatblygu i ymateb i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r tîm yn darparu gofal cartref i gefnogi'r broses o

ryddhau cleifion o'r ysbyty, pontio'r bwlch rhwng ymyriadau byrdymor a gofal cartref tymor hwy, gan sicrhau y caiff llesiant pobl ei hybu'n rhagweithiol ac y caiff eu diogelwch ei gynnal.

Mae tîm rhyddhau i asesu, tîm dementia yn y cartref a thîm ailalluogi ar gael i bobl ym Mhowys. Mae pob tîm yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac yn darparu buddiannau uniongyrchol i bobl sydd â'r hawl i gael gofal a chymorth ac i alluogi pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty. . Er gwaethaf gwelliannau yn y ddarpariaeth gofal cartref, dywedwyd wrthym am yr anallu i froceru pecynnau mawr o ofal mewn rhai achosion. Mae rhai pobl yn teimlo bod yr amseroedd lle y darperir gofal yn rhy gaeth ac nid yw hyn yn ddefnyddiol pan fydd cyflyrau iechyd yn amrywio o ddydd i ddydd. Roedd yn amlwg bod angen galwad gofal ar rai pobl gyda'r nos er mwyn eu helpu i barhau i fyw gartref ac nid oedd hyn ar gael. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y byddai rolau'r timau gwahanol yn cael budd o adolygiad er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau a thargedu'r rhai â'r angen mwyaf. Rydym yn cydnabod bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i leihau'r amser o asesiad i ddechrau pecyn gofal, ac mae'r amser ar ei isaf ers tair blynedd.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y tîm ailalluogi yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia i gael gofal personol. Fodd bynnag, nid yw'n glir bod y tîm ailalluogi yn cefnogi pobl mewn ffordd systematig i fyw'n dda gyda dementia ac addasu'r ffordd maent yn gwneud pethau, lleihau effaith anawsterau ymarferol a chynnal ymdeimlad o ddiben. Dylai'r awdurdod lleol werthuso rôl ac effaith y gwasanaeth ailalluogi i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda dementia yn cael cynnig yr un cyfleoedd i gynnal eu hannibyniaeth.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod cefnogi ei weithlu yn hanfodol i fusnes ac mae ganddo ffocws clir ar recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu. Mae'r holl staff yn cael budd o'r cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u gyrfaoedd. Mae'r awdurdod lleol yn anelu'n uchel o ran sicrhau bod y bobl sy'n byw ym Mhowys yn cael budd o gydberthnasau tymor hwy a llawn ymddiriedaeth â gweithwyr cymdeithasol medrus a chefnogol sy'n deall eu hanghenion a'r ffordd orau o weithio gyda nhw i leihau risg a gwella eu canlyniadau personol.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i recriwtio a chadw staff newydd yn barhaus a lleihau nifer y gweithwyr asiantaeth. Mae'n rhaid iddo barhau i fod yn ystyriol o'r effaith negyddol y gall staff asiantaeth ei chael ar waith tîm a meithrin cydberthnasau, yn ogystal â'r goblygiadau ariannol. Mae data'r awdurdod lleol ei hun yn dangos, er bod y defnydd o staff asiantaeth yn amrywio, mae wedi haneru mewn blwyddyn.

Mae'r uwch-reolwyr yn rhoi arweiniad mewnol a chymorth rheoli i ymarferwyr gweithredol i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ac iechyd y rhai y maent yn ymweld â nhw. Mae cryn bwys ar gymorth rheoli a goruchwyliaeth ac mae'r ymarferwyr yn croesawu cyfleoedd i fod yn ymreolus a chreadigol.

Mae cymorth i ymarferwyr yn ystod y pandemig wedi cynnwys amrywiaeth o wybodaeth, cwisiau, canu rhithwir a chiniawau rhithwir. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym am y gwahaniaeth mae'r cymorth hwn yn ei wneud i'w llesiant.

Partneriaethau – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau eu hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er

mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Mae llawer o'r ymarferwyr ym Mhowys yn ymgysylltu â phlant, oedolion a theuluoedd yn gadarnhaol ac yn annog gweithio mewn partneriaeth o ran galluogi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae buddsoddiad parhaus mewn rheoli profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ehangu i ad-drefnu'r gwasanaeth i fynd i'r afael â phob math o gamfanteisio ar blant wedi arwain at gylch gorchwyl diwygiedig ar Gamfanteisio ar Blant i lywio ffyrdd newydd o weithio.

Bydd y dull gweithredu integredig hwn yn datblygu cysondeb a ffocws ar ddysgu ac yn llywio ymarfer ar draws y rhanbarth.

Mae'r rheolwyr, gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid yn cynnal ffocws cadarn ar sicrhau y caiff plant eu cefnogi i aros gyda'u teulu a/neu brofi sefydlogrwydd ar y cyfle cyntaf posibl. Er mwyn lleihau oedi mewn prosesau cyfreithiol, mae'r awdurdod lleol wedi datblygu nifer o fforymau amlasiantaethol er mwyn helpu i sicrhau nad yw plant yn profi oedi diangen o ran gofal a chymorth nac o ran cyflawni sefydlogrwydd cyfreithiol neu emosiynol. Nododd y bobl y gwnaethom gyfweld â nhw fod angen mwy o waith cyfranogi er mwyn sicrhau y caiff barn plant a phobl ifanc a'u teuluoedd ei nodi a'i defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau.

Nododd y bobl sy'n cael gwasanaethau werth gallu datblygu cydberthnasau proffesiynol cadarnhaol â'u gweithiwr cymdeithasol; gwelsom enghreifftiau da o hyn yn y tîm anabledd integredig. Dywedodd rhai rhieni plant anabl eu bod yn teimlo'n rhan o dîm, yn bartner cyfartal, eu bod yn cael eu parchu, a bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Dywedodd rhai rhieni a gofalwyr wrthym fod hapusrwydd plant yn cael ei ystyried a bod ymarferwyr yn treulio amser yn dod i adnabod y plant.

Mae Cyngor Sir Powys yn awdurdod sy'n dysgu. Mae'r uwch-reolwyr ac arweinwyr yn dangos yn glir barodrwydd a gallu i ddysgu o arferion da ac arloesedd mewn meysydd eraill a defnyddio'r wybodaeth honno i wella safonau ym Mhowys. Mae'r defnydd cadarnhaol o ddata, monitro llif gwaith a mentrau darparu micro yn enghreifftiau gwirioneddol o welliannau sylweddol am fod yr uwch-reolwyr yn dysgu oddi wrth eraill, yn cynnal perchenogaeth ac yn goruchwylio darpariaeth y gwasanaeth ac yn darparu arweinyddiaeth uniongyrchol.

Mae'r ffocws ar ddefnyddio gwybodaeth broffesiynol a sgiliau wedi'u hategu gan ddata llif gwaith a monitro llif gwaith yn galluogi'r uwch-swyddogion i feithrin diwylliant o hyder a disgwyliadau. Mae disgwyliadau ysgrifenedig clir o ansawdd y gwasanaeth ac amseroldeb ar bob lefel i sicrhau bod pob ymyriad yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl sydd â hawliau i wybodaeth, cyngor, help, a gofal a chymorth.

Mae'n rhaid i'r rheolwyr adeiladu ar y cydberthnasau gwaith cadarnhaol rhwng timau therapi galwedigaethol iechyd a gofal cymdeithasol a cheisio gwella'r broses System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) i sicrhau, lle y bo angen, y gall therapyddion galwedigaethol drosglwyddo atgyfeiriadau at ei gilydd, osgoi achosion o ddyblygu a chynnal gwelliannau o ran amseroldeb ymateb.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn ystod COVID-19 wedi tynnu sylw at enghreifftiau cadarnhaol o welliannau y gall partneriaid eu gwireddu drwy weithio'n agosach. Er enghraifft, dywedodd yr ymarferwyr wrthym fod cyfle i gyflwyno panel mynediad integredig i wasanaethau yn lle'r panel cynnwys disgyblion presennol, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae aelodau'r panel yn sicrhau mai diben y panel yw hyrwyddo mynediad, atal plant rhag cyrraedd argyfwng, a rhoi galw diangen ar wasanaethau. Mae trefniadau ar gyfer cyfarfodydd “rhithwir” wedi gwella'r broses o gyfathrebu ag asiantaethau partner. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod plant anabl a'u teuluoedd yn cael budd o wasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn.

Mae trefniadau partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu. Yn gynyddol, gall yr uwch-swyddogion ddangos y ffordd y mae'r cysylltiadau rhwng eu cyfrifoldebau cyfarwyddiaeth gwahanol, gan gynnwys iechyd, tai a chyllid, yn cefnogi'r agenda gwasanaethau cymdeithasol ledled yr awdurdod lleol. Ystyrir bod cydweithio â sefydliadau trydydd sector i ddatblygu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth ac ataliol yn ystod y cyfnod digynsail hwn yn gryfder y mae'r awdurdod yn dymuno adeiladu arno a'i ymgorffori yn ei arferion.

Mae dealltwriaeth ehangach o fuddiannau gwaith atal yn y gymuned a'r effaith negyddol bosibl ar bobl a chyllidebau pan fydd oedi wrth gynllunio gwasanaethau ac ymateb, neu pan fydd hynny'n aneffeithiol. Mae uwch-reolwyr asiantaethau partner wedi dweud wrthym am amgylchedd gwaith sy'n fwy cydweithredol a chynhwysol.

Mae cydberthnasau gwaith cadarnhaol sy'n gwella â'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym am brosesau uwchgyfeirio clir mewn perthynas â heriau proffesiynol. Mae gweithio mewn partneriaeth, sefydlogrwydd y gweithlu a chydberthnasau creadigol a ddatblygwyd yn ddiweddar yn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth ar y cyd â gweledigaeth a rennir.

Mae'r awdurdod lleol yn aelod o fyrddau rhanbarthol ac yn cyfrannu'n rhagweithiol atynt, ac mae agweddau ar agenda gwella a thrawsnewid yr awdurdod lleol yn cael eu datblygu drwy flaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru a gwaith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

Y camau nesaf:
Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol.

Gwnaethom ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol i lywio ein canfyddiadau a'n barn:

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â mwy nag 20 o bobl, rhai pobl sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.
- gwnaethom edrych ar 15 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal trafodaethau olrhain achosion ar 14 o ffeiliau achos pellach
- gwnaethom edrych ar 9 atgyfeiriad diogelu
- gwnaethom edrych ar 12 o asesiadau galluedd meddyliol
- gwnaethom siarad â mwy na 40 o staff proffesiynol
- gwnaethom gynnal 3 grŵp ffocws

Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth helpu gyda'r trefniadau ar gyfer y gwaith hwn ac i'r bobl a'r staff a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol

Yn gywir,

Louise Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru